

Dyraniad y gwddf

Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty

Dyraniad y gwddf:

Gwneir llawdriniaeth i dynnu'r nodau lymff yn y gwddf er mwyn tynnu'r rhai sy'n cynnwys canser, pan fo tystiolaeth y gallai un neu fwy o nodau fod wedi'u heffeithio gan ganser yn y gwddf. Mae'r rhain yn aml yn fach ac yn sownd wrth strwythurau yn y gwddf. Efallai y bydd angen i ni dynnu meinweoedd eraill er mwyn sicrhau ein bod yn tynnu pob rhan o'r nodau sy'n cynnwys canser. Dim ond strwythurau y gallwch fyw'n ddiogel hebddynt y byddwn yn eu tynnu.

Mewn sawl achos dim ond rhan o'r llawdriniaeth yw dyraniad y gwddf ac efallai y byddwch hefyd yn cael triniaeth o fath arall gyda'r nod o dynnu'r prif diwmor neu'r tiwmor gwreiddiol. Gwneir y llawdriniaeth o dan anesthetig cyffredinol sy'n golygu y byddwch yn cysgu gydol y llawdriniaeth. Fel arfer bydd un toriad hir yn cael ei wneud yn y gwddf. Bydd pwythau neu glipiâu croen yn cau'r rhain.

Beth i'w ddisgwyl ar ôl y llawdriniaeth:

Fel arfer mae angen gosod 1 neu 2 ddraen yn y gwddf. Fel arfer caiff y draeniau eu tynnu o fewn y dyddiau cyntaf ar ôl y llawdriniaeth. Os bydd popeth yn iawn gallwch gael fynd adref. Nid yw'r rhan fwyaf o gleifion yn cael llawer o boen ar ôl y llawdriniaeth. Efallai y byddwn yn tynnu un o'r cyhyrau mawr o'r gwddf, felly mae cleifion yn teimlo fod y gwddf yn edrych yn fwy gwastad ar yr ochr sydd wedi cael y llawdriniaeth, a gall eu gwddf fod yn anystwyth ar ôl y llawdriniaeth.

Os defnyddir pwythau/clipiau na ellir eu hydoddi yna efallai y bydd angen eu tynnu ar ôl wythnos fel arfer yn eich practis meddyg teulu. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ar ôl y llawdriniaeth ac yn cael ei nodi ar eich llythyr rhyddhau.

Mae teimlo'n fwy blinedig nag arfer yn normal am hyd at wythnos ar ôl eich llawdriniaeth, os ydych yn rhiant neu'n ofalwr bydd angen rhywfaint o gymorth arnoch yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n bwysig eich bod yn bwyta ac yn yfed fel arfer.

Sicrhewch fod eich clwyf yn cael ei gadw'n lân ac yn sych. Dylid osgoi defnyddio colur a hufenau persawrus. Ar ôl 10 diwrnod, tylinwch eich craith yn ysgafn gyda hufen lleithio heb bersawr ynddo ddwy neu dair gwaith y dydd.

Cymhlethdodau posibl a chyngor yn dilyn llawdriniaeth:

Croen diffwrth: Bydd croen y gwddf yn ddideimlad ar ôl y llawdriniaeth. Bydd hyn yn gwella dros amser i ryw raddau, ond ni ddylech ddisgwyl iddo ddychwelyd i normal

Gwaedu:

Mae'r risg o waedu yn isel ac mae'n bwysig osgoi unrhyw weithgaredd egnïol yn syth ar ôl y llawdriniaeth er mwyn lleihau'r risg. Gallai gwaedu arwain at hematoma (clot gwaed) yn ffurfio o dan y clwyf. Efallai y bydd angen triniaeth bellach arnoch i atal y gwaedu a thynnu'r ceuled.

Haint:

Mae risg o haint gydag unrhyw driniaeth lawfeddygol, ond cyn belled â bod y clwyf yn cael ei gadw'n lân, bach iawn yw'r risg.

Gollyngiad Chyle:

Chyle yw'r hylif meinwe, sy'n rhedeg mewn sianeli lymff. O bryd i'w gilydd mae un o'r sianeli yma, a elwir yn ddwythell thorasig, yn gollwng ar ôl y llawdriniaeth. Os bydd hyn yn digwydd, gall hylif lymff neu chyle gasglu o dan y croen, ac os felly mae angen i ni eich cadw yn yr ysbyty yn hirach ac weithiau bydd angen i ni fynd â chi yn ôl i'r theatr i selio'r gollyngiad.

Niwed i'r nerfau:

Mae pedwar nerf pwysig y gall y llawdriniaeth hon effeithio arnynt ac ymdrinnir â phob un ohonynt yn yr ychydig baragraffau canlynol.

1. Anaf i'r nerf Atodol: Dyma nerf un o gyhyrau'r ysgwydd. Rydym yn ymdrechu'n galed i gadw'r nerf hwn ond weithiau mae angen ei dynnu, oherwydd ei fod yn rhy agos at y tiwmor. Yn yr achos hwn fe welwch fod eich ysgwydd ychydig yn stiff ac y gall fod yn anodd codi'ch braich uwchben yr ysgwydd. Gall codi pwysau trwm, fel bagiau siopa, fod yn anodd hefyd.
2. Anaf i'r nerf Hypoglossal: Yn anaml iawn, mae'n rhaid tynnu'r nerf hwn hefyd (y nerf yma sy'n gwneud i'ch tafod symud) oherwydd cysylltiad â'r tiwmor. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn ei chael yn anodd clirio bwyd o'r ochr honno o'r geg a gall achosi problemau gyda llyncu.
3. Anaf i'r nerf dafodol: Yn anaml iawn, mae'n rhaid tynnu'r nerf hwn (sy'n rhoi blas a theimlad i chi ar yr ochr honno) hefyd oherwydd ei gysylltiad gyda'r tiwmor. Yn yr achos hwn fe welwch fod newid yn eich synnwyr o flas ar yr ochr honno ac efallai y byddwch yn ei chael hi'n anodd bwyta oherwydd y newid i'r teimlad.
4. Anaf i'r nerf mandibl ymylol: Mae risg i'r nerf hwn hefyd yn ystod y llawdriniaeth, ond rydym yn ymdrechu'n galed i'w gadw. Os caiff ei niweidio fe welwch y bydd cornel eich ceg ychydig yn wan. Mae hyn yn fwyaf amlwg wrth wenu.

Amser a gymerir i wella:

Efallai y byddwch yn cael rhywfaint o boen wrth lyncu oherwydd y llawdriniaeth a'r tiwb anesthetig. Mae hyn yn normal a dylai ddiflannu ar ôl 72 awr.

Gall eich gwddf fod yn anystwyth hefyd a dylech symud eich pen o fewn eich terfynau er mwyn ystwytho'r gwddf.

Dylech gymryd o leiaf 3 wythnos i ffwrdd o'r gwaith er mwyn gwella ar ôl y lawdriniaeth. Gellir rhoi nodyn salwch cyn i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty os oes angen.

Bydd gennych graith. Bydd y graith yn edrych yn goch ond bydd yn colli lliw yn araf. Gall hyn ddigwydd dros gyfnod o ychydig fisoedd neu ychydig flynyddoedd. Bydd angen i chi amddiffyn eich craith rhag golau haul uniongyrchol am 18 mis; fe'ch cynghorir i ddefnyddio bloc haul llwyr. Mae rhai pobl yn cynhyrchu craith Keloid (craith godi/lliw dwfn). Mae hyn oherwydd y math o groen sydd ganddynt; nid oes modd rhagweld y bydd hyn yn digwydd cyn y lawdriniaeth ac mae'n bosib y bydd modd trin y graith yn ddiweddarach.

Camau Dilynol:

Dylech gael eich gweld yn y clinig cleifion allanol tua 2 i 4 wythnos ar ôl y lawdriniaeth. Ar y pwynt hwn fe ddylai profion o'r labordy fod ar gael. Bydd eich llawfeddyg hefyd yn gallu edrych yn fanwl ar eich gwddf ac ateb unrhyw gwestiynau. Os na fyddwch yn derbyn gohebiaeth ynglŷn â'r apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa trefnu apwyntiadau cleifion allanol ar 01495765055.

Triniaeth bellach:

Bydd hyn yn dibynnu ar ba driniaeth yr ydych wedi ei chael yn barod, ble mae'ch tiwmor a pha fath o diwmor ydyw. Weithiau byddwn yn rhoi radiotherapi/cemotherapi yn ogystal â llawdriniaeth os credwn y gallai hyn roi gwell siawns o wellhad.

GWYBODAETH AR BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI'U RHYDDHAU O'R YSBYTY

09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):

Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633234018

Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion): Ward C0 01633 493926

Os bydd argyfwng anadlu, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Gall hyn ddigwydd os oes gwaedu neu chwyddo yn eich gwddf, yn enwedig yn ystod y 48 awr gyntaf ar ôl llawdriniaeth.

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”**